Cas-Blaidd

Cynllun Gweithredu

Updated 2008

Rhan-ariennir prosiect 'Dylunio ein Dyfodol' gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru
drwy gyfrwng Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CYNLLUN GWEITHREDU CAS-BLAIDD

Wedi ei baratoi gan
CYMUNED CAS-BLAIDD

Mewn **Rhwydwaith Sir Benfro er Menter**

Cydweithrediad â **Gweithredu Lleol a Datblygu**

CYNNWYS **TUDALEN**

Cefndir i'r Cynllun Gweithredu
Ardal y Cynllun Gweithredu
Hanes
Cynigion y Cynllun Gweithredu
Gweithgareddau Cymunedol, Adnoddau a Gwasanaethau
Cyfathrebiadau
Amgylchedd (gan gynnwys hawliau tramwy)
Treftadaeth
Busnes, Cyflogaeth a Thwristiaeth
Trafnidiaeth, Ffyrdd a Thraffig
Tai
Gwaredu Gwastraff ac Ail-Gylchu
Gweithredu / Grwpiau Gweithredu

Cytunwyd ar y Cynllun Gweithredu yma mewn Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 24 Medi 2008 ar ôl dosbarthu'r Cynllun Gweithredu Drafft i'r gymuned gyfan.

Mae'r hyn a ddarganfuwyd adeg y gweithdy a chanlyniadau'r holiadur cymunedol wedi eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu hwn a ddosbarthwyd i'r holl drigolion cyn iddynt gael eu trafod yn y cyfarfod cyhoeddus.

Fe wnaeth 30 o deuluoedd ymateb i'r holiadur cymunedol. Bu 14 ohonynt yn byw yn y gymuned ers dros 16 mlynedd, 9 ohonynt yn byw yn Nhrewyddel rhwng 6 a 15 mlynedd a'r gweddill yn byw yno am lai na 5 mlynedd.

Ymhlith y rhesymau dros symud i'r gymuned yn y lle cyntaf, ac eithrio cael eu geni yma oedd gwell ansawdd bywyd, ymddeoliad, tenantiaeth o ffermydd cyngor, lle da i fagu teulu, y cefn gwlad, i fod yn agosach at ffrindiau a theulu ac i ddianc rhag bywyd y ddinas. Diffyg tai fforddiadwy, teulu, addysg a chyflogaeth oedd y rhesymau dros unrhyw fwriad i symud o'r gymuned.

Cefndir i'r Cynllun Gweithredu

Yn Hydref 2004, trafododd cynrychiolwyr o gymuned Cas-Blaidd a PLANED awgrymiadau i baratoi Cynllun Gweithredu ar gyfer y pentref. Yn Chwefror 2005 cynhaliwyd Gweithdy 1 yr Ymarfer Golwg ar y Gymuned ac ar Chwefror 16eg cynhaliwyd Gweithdy 2. Roedd y canlyniadau'n sylfaen ar gyfer y Cynllun Gweithredu dilynol.

Wedi ymgynghori gyda Fforwm Cymunedol Cas-Blaidd, cytunwyd cynnal Gweithdy Cynllunio Prosiectau Cynaliadwy yn Nhachwedd 2007. Anfonwyd gwahoddiadau at bob cartref yn y gymuned i annog cyfranogiad helaeth yn y digwyddiad, gan felly barhau gyda'r ymagwedd a fabwysiadwyd pan gynigiwyd y Cynllun Gweithredu am y tro cyntaf. Mae cyfranogiad gan bob rhan o'r gymuned yn cryfhau'r sylfaen ar gyfer paratoi, mabwysiadu a gweithredu'r Cynllun.

Nod gweithdy 2007 oedd adolygu Cynllun Gweithredu 2005, ei ddiweddaru ac ychwanegu cyfleoedd newydd ato, ac edrych ar brosiectau a allai gyfrannu at gynaliadwyedd hir dymor y gymuned. Gobeithiwyd hefyd y byddai'r gweithdy'n cryfhau dealltwriaeth a brwdfrydedd y gymuned mewn perthynas â byw'n gynaliadwy, ac yn helpu pobl leol i ddod yn fwy hunangynhaliol, iach ac ymwybodol o ynni.

Ers mabwysiadu Cynllun Gweithredu 2005, sefydlwyd Fforwm Cymunedol Cas-Blaidd gan ddod â grwpiau cymunedol ac unigolion at ei gilydd o fewn y gymuned, ynghyd â thri gweithgor i weithio ar y cynigion amrywiol, gan gynnwys

- Mae grŵp treftadaeth wedi cynnal ymchwil lleol, trefnu Arddangosfa o Dreftadaeth a datblygu taflen Treftadaeth Cas-Blaidd.
- Ffurfiwyd Bwrdd Golygyddol Cylchlythyr Wolfwhistle ac mae'n cynhyrchu cylchlythyr chwarterol ar gyfer y gymuned.
- Mae grŵp Amgylcheddol wedi cwrdd ac, ymhlith nifer o gynigion, mae'n hybu llwybrau cerdded yn yr ardal.

Ardal y Cynllun Gweithredu

Lleolir Cas-Blaidd yn nyffryn y Cleddau Wen ym mynediad ogleddol Ceunant Trefgarn mewn man lle mae'r rheilffordd o Gaerfyrddin i Abergwaun yn croesi priffordd yr A40. Mae'n gytbell o Abergwaun yn y gogledd ac o Hwlffordd yn y de. Mae gan Gas-Blaidd sy'n eistedd yn ei ardal Cyngor Cymuned ei hun, sy'n cynnwys Trefgarn, Y Fwrd a Sant Dogfael, boblogaeth o ryw 580. Mae'n lle ble "mae pobl yn dod yma ac maen nhw eisiau aros".

Hanes

Mae gan ardal Cas-Blaidd hanes sydd yn dyddio nôl mil o filiynnau o flyneddoedd, gan i'r pentref gael ei leoli yng ngheunant Trefgarn, gyda'i chreigiau cyn-Cambrian a gafodd eu gosod yr adeg hynny. Mae'r pentref a'r ardal o'i chwmpas yn gyfoethog o adfeilion hanesyddol ac mae bron pob craig, cae a lôn, plas, bwthyn ag egwlys yn dangos ôl ei chyndeidiau a'u gweithgareddau amrywiol.

Mae arbenigwyr yn dadlau p'un ai rhewlif Mor Iwerddon neu cyfnodau olaf gweithgareddau rhewlifol oedd yn gyfrifol am olwg yr ardal, ond mae'r tystiolaeth gyntaf o weithgareddau dynol yn dyddio nôl i'r cyfnod cyn Crist. O gyfnod ychydig yn hwyrach, mae werth nodi taw mewn sir sydd yn brin o weddillion Rhufeinig, ceir yng Nghas-Blaidd un o'r olion mwyaf nodedig o'r cyfnod hynny. Mewn cae tu allan y pentref ar ffordd Cas-lai, darganfyddwyd, ar ddechrau'r 19eg ganrif, olion ystâd Rhufeinig-Brydeinig. Gweithiwr fferm wnaeth ddarganfod yr olion ac mae ei ddarganfyddiad wedi cyffroi haneswyr o Fenton ar y pryd hyd at Dr Mark Merrony ryw ddwy ganrif yn ddiweddarach.

Er i eglwys gael ei sefydlu yn Sant Dogfael gan Dogfael rywbryd yn y 6ed ganrif, a phresenoldeb cerrig Ogham yn y fynwent (er nad ydynt yn eu safle gwreiddiol mwyach) sydd hefyd yn dystiolaeth o

weithgreddau dynol yn yr Oesodd Tywyll, efallai taw ddyfodiad y Normaniaid i Sir Benfro cafodd yr effaith fwyaf ar Gas-Blaidd. Adeiladwyd castell mwnt a beili ar y tir uchel, rhwydd ei amddiffyn rhwng afonydd Cleddau ac Angof. Gellir gweld ei adfeilion hyd heddiw ac mae wedi eu adnewyddu dros y blynyddoedd diwethaf drwy ymdrechion y gymuned.

Mae'n amhosib wybod yn bendant a gafodd y castell ei adeiladu yng nghanol cymuned a fodolai eisoes neu a ddatblygodd y pentref o amgylch y castell, ond mae'n bendant fod y pentref yn ystod yr Oesodd Canol yn rhan o arglwyddiaeth Esgobaeth Dewisland. Oherwydd hyn, mae disgrifiad manwl o'r faenor yn bodoli yn "Llyfr Du Tyddewi" (1326), sy'n ddiddorol iawn i'w ddarllen. Mae hefyd werth nodi pan derbyniodd esgobion canol oesol eu gwŷs ffiwdal i fynd i ryfel, roedd creiriau'r nawddsant yn cael eu hebrwng gyda nhw mor bell a Garn Twrne.

Mae dau gysylltiad arall rhwng yr ardal a'r canol oesodd yn haeddu eu nodi. Y cyntaf yw fod yr Esgob Tyddewi ar y pryd yn 1141 wedi gwahodd grŵp o fynachod Sistersaidd i sefydlu canolfan yn Nhrefgarn. Yn anffodus, tymor byr fu ei hanes wrth i'r gymuned symud i Hendygwyn a sefydlu abaty yna. Yr ail yw'r hanes fod Owain Glyndwr wedi ei eni yn Trefgarn Bach a tharddiad y stori yma yw'r ffaith fod teulu ei fam yn dirfeddianwyr yn yr ardal. Yn anffodus ni ellir profi gwir y stori- na'i gwrthbrofi!

"Trwy Trawgan pob lladron" yw geiriau'r hen ddywediad ac mae'n adlewyrchu sut, yn dilyn y concwest Normanaidd pan gymerodd y goresgynnyddion y tiroedd amaethyddol mwyaf ffrwythlon i'r de, gwnaeth Cymry tlawd yn y Gogledd ymosod ar eu cymdogion fwy llewyrchus. Trwy'r ceunant daethant a gwartheg, defaid, ceffylau a thrysorau symudol eraill a parhaodd y weithred am ganrifoedd. Nid yw wedi nodi beth oedd ymateb drigolion Cas-Blaidd i'r fath weithredoedd!

Yn 1627, yn ôl y llechen yn Rhyd Sant Margaret, sefydlodd Margaret Symmons y capel anwes (Yr Eglwys Fach) er lles ei thenantiaid a oedd yn bell o'u heglwysi plwyf. Tra fod y Symmons

o Martel, ym mhlwyf Casmael, yn nhirfeddiannwyr yn yr ardal, roedd dau deulu lleol i chwarae rôl llawer mwy amlwg: y Tuckers o Sealyham a'r Edwardes' o Drefgarn Bach. Roedd cymeriadau nodiadol yn perthyn i'r ddau deulu, gan gynnwys y Llyngesydd Thomas Tucker a wnaeth ddal yn honendig y morleidr Blackbeard, a Chapten Jack Edwardes a wnaeth fagu'r daeargi Sealyham enwog. Yn y ddeunawfed ganrif priododd mab yr Edwardes etifedd teulu'r Tucker a gellir olrhain hanes hynafiaid y briodferch a thylwyth y Tucker Edwardes drwy'r cofnodion sy'n addurno'r walydd yn Eglwys Sant Dogwell.

Yn Eglwys Sant Dogfael priodwyd Joseph Harries a Martha Symmons. Roedd ef yn fab i feili fferm ac er iddo gael ei godi yn aelod o'r Eglwys Anglicanaidd cafodd ei ddylanwadu'n fawr gan ddiwygiadau crefyddol y cyfnod, a daeth yn Fedyddiwr ymroddedig. Wedi iddo bregethu'n lleol, symudodd i Abertawe lle lafurodd fel gweinidog. Yn ddyn aml-dalentog, caiff ei gofio'n bennaf heddiw am ei gyhoeddiad wythnosol gyntaf yn y Gymraeg, "Seren Gomer", ac o ganlyniad mae wedi ennill y llysenw "Tad Newyddiaduriaeth Cymru." Roedd Joseph Harries yn adlewyrchiad o'i gydwladwyr pan wnaeth droi i Anghydffurfiaeth.

Yn 1797 pregethodd yr Offeiriad Thomas Skeel o Drefgarn Owen am y tro cyntaf yng Nghas-Blaidd. Gwnaeth ei ffyddloniaid gyntaf gyfarfod yn Fferm y Rhyd cyn iddynt sefydlu capel Pen-y-Bont yn 1807. Adnewyddwyd y capel yn 1907 ac mae nawr yn edrych ymlaen i'w ddeucanmlwyddiant yn 2007. Yn ddiddorol, sefydlodd yswain Sealyham, William Tucker Edwardes, ysgol bentref yng Nghas-Blaidd yn 1834 dan nawdd y Gymdeithas Brydeinig (e.e. Anghydffurfiol)- digwyddiad prin iawn yn y cyfnod hynny.

Tra fod amaethyddiaeth wastod wedi bod yn ganolog i'r economi lleol ac yn brif gyflogwr yr ardal, rhaid cofio fod diwydiant wedi creu rhai swyddi. Tarddodd Chwarel Llechu Sealyham o gwarel stâd a dechreuwyd elwa'n fasnachol ohoni am y tro cyntaf pan ei etifeddwyd gan William Tucker Edwardes yn 1825. Trwy'r bedwaredd ganrif ar bymtheg cafodd lwyddiant cyfnewidiol, ond cafwyd cyfnodau o lewyrch gymharol. Cafodd ei weithio olaf tua

1903 a gellir gweld olion yng Nghoedwig Sealyham hyd heddiw.

Un o'r rhesymau pam na brofodd y chwarel lwyddiant mawr oedd cysylltiadau gwael a cafodd hyn ei wella i raddau ar ddechrau'r ugeinfed ganrif pan adeiladwyd y rheilffordd, er i Brunel geisio gwneud hyn yn y 1840au. Brwydrodd cloddwyr yn hir i dorri trwy creigiau hynod o galed y ceunant a rhedodd y trên gyntaf yn 1906- yn union fel roedd Sarah Evans wedi rhag-ddweud mewn gweledigaeth bron canrif a hanner ynghynt. Gwelodd yr ugeinfed ganrif priffordd yr A40 yn cael ei wella'n sylweddol i osgoi yr hen ffordd gyda'i rhiw gul a'i fachdro (lle, yn ôl traddodiad leol, cafodd eliffant syrcas a oedd yn tynnu cart drom trawiad ar y galon!). Fodd bynnag, er iddo fod yn welliant, torrodd ystod didostur drwy'r tirwedd, a gyffyrddodd â ffin y castell mwnt a beili.

Gwelodd yr ugeinfed ganrif newidiadau lawer a effeithiodd ar Gas-Blaidd fel ym mannau eraill. Gadawodd dau Rhyfel Byd eu hôl ac mae'n ddiddorol nodi fod pencadlys lleol Uned Ategol y Gwrthwynebiad Brydeinig yng nghoedwig Sealyham. Yn ychwanegol i'r nifer gynyddol o geir a thraffig, mae'r pentref wedi mabwysiadu rôl newydd fel cydlynydd hamdden. Yn ychwanegol i Tafarn y Wolfe, ceir Gwesty Wledig Allt-yr-Afon, crochendy a chastell adnewyddiedig, tra fod melin Nant y Coy (gyda'r adeiladau presenol yn dyddio o 1844) bellach yn atynfa i dwristiaid. Ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain, mae'n bleser nodi fod yr ysgol, ysgol sul, capel ac eglwys yn llewyrchu o hyd ac fod yr ysbryd cymunedol, fel a welir yn ystod yr Wythnos Gŵyliau, yn ennyn cenfigen sawl cymuned arall.

Cynigion y Cynllun Gweithredu

Bydd cynhyrchu Cynllun Gweithredu yn rhoi i Gas-Blaidd raglen gytun ar gyfer datblygiad cymunedol, yn nhermau gwelliannau i strwythr ac hefyd bywyd cymdeithasol ei thrigolion. Gobeithir fod y prosiectau a ddisgrifir yn yr adroddiad yma yn llwyddo mor fuan ac ymarferol bosib gyda'r partneriaid yn gweithio'n gytun gyda pobl lleol i ddylunio, darganfod a gweithredu'r cynlluniau

Gweithgareddau Cymunedol, Adnoddau a Gwasanaethau

Adnoddau Cymunedol a Gwasanaethau

Sylwadau
Mae Capel Annibynwyr Penybont, a adeiladwyd yn 1807, wedi ei leoli yng nghanol Cas-Blaidd. Mae'n amlwg fod y mwyafrif y mwyafrif o weithgareddau a gynhelir wedi eu lleoli yn agos i'r capel. Mae'r gwasanaethau dwy-ieithog yn cael eu mynychu'n dda, gydag addolwyr yn dod o ardal eang. Mae'r Eglwys yn ffodus i gael un o'r ysgolion sul mwyaf llewyrchus o fewn enwadau Cymraeg eu hiaith, yn ogystal a gymanfa ffyddlon yn y cyfarfodydd gweddi a chwaeroliaeth. Mae eglwys fychan Saint Margaret yn eistedd ar ffîn deheuol y pentref gyda prinder o lefydd parcio (er mae yna palmant ar hyd yr A40).

Mae Festri'r Capel, lle cynhelir nifer o gyfarfodydd, yn adeilad llawr cyntaf gyda mynediad o grisiau llydan, allanol. Mae ystafell gyfarfod bach i'r dde a chegin i'r chwith.

Mae absenoldeb neuadd bentref a cau'r ardal chwarae yn golygu fod prinder adnoddau i bobl o bob oedran, prinder sydd yn effeithio'n enwedig ar y plant ieuengaf a plant yn eu harddegau, sy'n dibynu ar eraill am drafnidiaeth.

Lleolir Ysgol Cas-Blaidd yng nghanol pentref Cas-Blaidd sydd ychydig i'r gogledd i greigiau Trefgarn, sydd yn nodi'r ffîn rhwng "Cymreictod" gogledd Sir Benfro a "Seisnigrwydd" y de. Mae'r ysgol yn adnabyddus am feithrin y "Cymreictod" yma yn ei disgyblion, yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol, p'un ai bod y rhieni yn medru'r iaith neu beidio. Fel rhan o bolisi ieithyddol yr Awdurdod mae'r ysgol wedi ei benodi'n ysgol categori A sy'n perthyn i ardal Cymraeg traddodiadol.

Mae Ysgol Cas-Blaidd yng nghanol gweithgareddau'r pentref, yn wir ysgol bentref, yn darparu adloniant i bobl dros 60 oed, helpu gyda rhaglenni glanhau, ac yn rhan anatod o gais y pentref i gystadleuaeth flynyddol "Cymru wedi Blodeuo." Mae pentrefwyr yn gefnogol iawn i weithgareddau'r pentref ac yn helpu i godi arian i'r ysgol e.e. drwy Ŵyl Cas-Blaidd. Mae gan yr ysgol Gymdeithas Rhieni a Ffrindiau gweithgar iawn sy'n codi arian sylweddol yn flynyddol i gefnogi'r ysgol.

Mae'r ysgol yn Ysgol Gynradd Sirol cyd-addysgol, yn gwasanaethu plant ardal Cas-Blaidd a Threfgarn. Adeiladwyd yr ysgol yn 1834 ac mae'n cynnwys dau ddosbarth wedi eu gwahanu gan yr hyn a oedd yn nhŷ'r ysgol yn wreiddiol. Mae datblygiadau diweddar wedi gweld yr ysgol yn cael ei adnewyddu gyda bloc toiledau newydd, llyfrgell/ystafell cyfrifiaduron, dosbarth ychwanegol, ystafell storio ac ystafell i'r staff. Eleni mae codi arian hael wedi darparu ardal chwarae creadigol/dosbarth tu fas i'r plant, yn ogystal ag ardal chwarae diogel i'r plant ieuengaf. Mae'r ysgol yn ceisio darparu rhywfaint o weithgareddau corfforol i'r holl blant yn ystod yr wythnos ond gan nad oes neuadd mae hyn yn anodd pan yn bwrw glaw.

Fel rhan o ymarfer Llunio'n Dyfodol, gofynnwyd i'r gymuned ystyried pedwar cynnig yn y Cynllun Gweithredu a phrofi sut fyddai cynllunio prosiectau cynaliadwy yn gallu helpu trosglwyddo'r Cynllun Gweithredu. Yn absenoldeb gallu i ddatblygu neuadd bentref yng Nghas-Blaidd, un o'r prosiectau hynny oedd cwblhau neuadd bentref yn Nhreffgarne.

Cynigir cael y neuadd bresennol ar les gan yr Eglwys yng Nghymru a'i datblygu mewn ffordd gynaliadwy i fod yn gyfleuster cymunedol. Fel rhan o'r gwaith, cynigir gosod panelau haul, system gasglu dŵr glaw a boeler biomas, i ostwng costau rhedeg a chadw ôl-troed carbon isel.

Cynigion

1. Cefnogi'r gymuned yn Nhreffgarne yn eu cynnig i ailddatblygu eu neuadd bentref bresennol neu adeiladu un newydd.

2. Cefnog'ir Swyddfa Bost- Gallai gwasanaethau ychwanegol gynnwys:
    a. i gynnwys gwasanaeth bancio sylfaenol
    b. Man gyfrifiadurol gyda mynediad i'r rhyngrhwyd, printiwr a llungopïwr
    c. Man cysylltu gyda'r Heddlu
    d. Man Gwybodaeth Twristiaeth
2. Annog gwerthu cynnyrch lleol
3. Ystyried darparu ardal hamdden addas yng Nghas-Blaidd ble mae pob aelod o'r gymuned yn gallu cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau.
4. Adnabod safle i ail-greu ardal chwarae ar y safle gwreiddiol, i gynnwys offer i'r plant ieuengaf / plant ysgol gynradd.

6) Cryfhau unrhyw berthynas gyda Chanolfan Gweithgareddau Sealyham fel ganolfan lleol i weithgareddau awyr agored ac o bosib fel adnodd ar gyfer cymuned Cas-Blaidd os fydd unrhyw oedi mewn cynigion yn Nhreffgarne.
7) Gofyn i'r Awdurdod Iechyd ystyried gweithredu meddygfa symudol i ateb gofynion Cas-Blaidd a chymunedau gwledig eraill
8) Gwella cyfleusterau gwasanaethau deintyddfa (preifet a GIG)

Gweithgareddau Cymunedol

Sylwadau

Mae ysbryd cymunedol cryf, natur cyfeillgar a'r ymdeimlad o berthyn yn denu pobl i symud i'r pentref. Mae'r pentref yn fwy wrthrychol wrth i'r boblogaeth gynyddu, fodd bynnag mae'r boblogaeth yn heneiddio.

Sefydlwyd Pwyllgor Mileniwm Trefgarn a Chas-Blaidd er mwyn meithrin ac hyrwyddo amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol o fewn y gymuned i adlonni'r cyhoedd. Ers iddo ddod i fodolaeth, mae'r pwyllgor wedi llwyddo i gael nawdd i greu mosäig cymunedol sydd wedi ei leoli gyferbyn ag ardal harddwch Glan yr Afon, lleoliad y polyn fflag gymunedol hefyd. Codwyd cerrig ymhob un o'r tri ward- Trefgarn, Y Fwrd a Sant Dogfael i goffáu'r Mileniwm. Ar achlysuron arbennig, mae'r Ddraig Goch yn cael ei hedfan

uwchben Ceunant Trefgarn, lle leolwyd polyn fflag am resymau anhysbys ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, ond a ail-ddarganfuwyd wedi bron 90-100 mlynedd.

Mae nifer o ddigwyddiadau blynyddol yn cael eu trefnu ar hyn o bryd gan y Pwyllgorau Mileniwm a Gwyliau, gan gynnwys Wythnos Gwyliau , Arddangos Gerddi sy'n ffocws i'r gymuned. Mae canol-ddarn y Mileniwm yn adlewyrchu'r balchder yng Nghas-Blaidd. Mae mudiadau lleol eraill yn cynnwys Sefydliad y Merched, Cyfeillion yr Ysgol, aelodau'r eglwys a chapel (gan gynnwys Ysgol Sul), y Chwaeroliaeth, y Cyngor Cymuned a'r grŵp Dros 60 oed.

Fodd bynnag, teimlir fod peryg i'r ysbryd cymunedol ddirywio am nifer o resymau, gan gynnwys absenoldeb canolfan i gwrdd (heblaw Festri Capel yr Annibwynnwyr, Tafarn Y Wolfe neu Gwesty'r Allt yr Afon), i adael i newydd-ddyfodiaid fod yn rhan o'r pentref. Gan nad oes neuadd bentref neu cymunedol yn naill ai Cas-Blaidd na Threfgarn, mae trigolion yn gorfod dibynu mwy a mwy ar Dreletert. Er enghraifft, mae'r Brownies yn cwrdd yna neu yn Abergwaun.

Mae'r newid yng nghymeriad y pentref wedi gweld dirywiad yn y nifer sy'n medru siarad yr iaith Gymraeg, er fod yna deimlad fod dysgu'r iaith yn cael ei groesawi a'i annog. Mae cadw gymuned ddwyieithog i'w weld yn elfen bwysig.

Mae'r ymatebion i'r holiadur cymunedol yn awgrymu bod gan bobl ddiddordeb i edrych ar ôl eu hiechyd, a hoffent fwy o gyfleoedd i wneud gweithgarwch corfforol. Ymhlith yr awgrymiadau i wneud hi'n haws i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, oedd gwell iechyd a gwell cyfleusterau lleol. Crybwyllwyd hefyd diffyg amser rhydd. Mynegwyd pryder ynglŷn â'r diffyg llwybrau seiclo a chyfleusterau i bobl ifanc wneud gweithgarwch corfforol.
Y ffordd fwyaf poblogaidd o wneud ymarfer corff yw cerdded a garddio.

Gwelwyd dirywiad cyffredinol yn y nifer o wasanaethau cymunedol dros y blynyddoedd diwethaf gan gynnwys cau siop y pentref /

swyddfa bost yn 2003 a oedd hefyd yn man cyfarfod i'r pentrefwyr; gwelir eisiau'r gwasanaeth yn enfawr. Mae'r Clwb Ieuenctid wedi cau, y tafarn lleol bellach ddim yn teimlo fel tafarn pentref – mwy o fan bwyta- llai o blismona a diwedd y Cynllun Gwarchod Cymdogaeth. Serch hyn, mae lefel troseddau yn isel.

Mae llyfrgell symudol yn ymweld â'r pentref ac mae cludiant llaeth a phapurau newydd (o Dreletert). Mae cigydd yn galw.

Mae yna fynediad cyfyngedig i wasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol, yn enwedig gwasanaethau arbennigol, fel deintyddion.

Cynigion

1. Creu Pwyllgor Digwyddiadau'r Fforwm Cymunedol, a fyddai'n cwrdd yn neuadd bentref Trefgarn ac yn canolbwyntio ar syniadau ac ynni gwirfoddolwyr ym meysydd digwyddiadau, clybiau a chwaraeon
2. Adeiladu ar lwyddiant diwgyddiadau blynyddol presenol, gan Wythnos Gwyliau a Gŵyl y Nadolig. Ail-gyflwyno'r Carnifal a'r Tân Gwyllt a threfnu digwyddiadau ac arddangosfeydd ychwanegol yn ystod y flwyddyn.
3. Ailgyflwyno cynllun Gwarchod Cymdogaeth
4. Bod yn ymwybodol o'r cyfle ar gyfer clwb ieuenctid yn Nhreffgarne unwaith y bydd neuadd bentref wedi'i chwblhau.

Cyfarthrebiadau

Sylwadau

Mae'r mast ffôn symudol yn Fferm Trefgarn wedi gwella cyfarthebiadau. Mae gwefannau Cas-Blaidd a'r Ysgol, y cylchlythyr cymunedol (Wolf Whistle), gwybodaeth ar lafar gwlad, cylchlythyr yr ysgol ac hysbysfyrddau sy'n rhoi gwybodaeth i drigolion lleol am digwyddiadau lleol a gweithgareddau. Maent yn gymharesau da i

bapurau Sir Benfro, Radio Sir Benfro a'r Weinidog leol.

Cynigion

1. Cryfhau'r Bwrdd Golygyddol a denu gwirfoddolwyr ychwanegol i ddosbarthu Wolfwhistle; cynnal diddordeb eang sy'n adlewyrchu gweithgareddau yn yr ysgol, y Capel a'r Eglwysi lleol.
2. Ymchwilio i osod hysbysfyrddau ychwanegol.
3. Ymchwilio i welliannau i dderbyniad teledu

Amgylchedd Gan Gynnwys Hawliau Tramwy

Sylwadau

Lleolir Cas-Blaidd mewn awyrgylch hardd a heddychlon. O uchelfannau'r pentref mae golygfeydd dros yr ardal wledig o'i gwmpas, gan gynnwys cerrig brig Ceunant Trefgarn ac ardaloedd goediog cymoedd yr afonydd. Mae'r creigiau ar naill ochr y ceunant yn hynafol ac o ddidordeb daearegol.

Nodweddion sy'n rhoi cymeriad amlwg i'r pentref yw dyffryn agored y Cleddau Wen sy'n rhedeg i fewn i ganol Cas-Blaidd, yr hen bont deu-fwaog a chlwt y pentref. Yn 1989 ennillodd Cas-Blaidd wobr am y pentref wedi'i chadw orau. Mae'r ardaloedd agored yn y pentref yn cael eu cynnal yn ddeniadol ac ar y cyfan yn glir o sbwriel, mae'r adeiladau'n edrych yn daclus, gerddi yn cael eu gofalu ar eu hôl gyda mwy o flodau.

Mae'r ddwy afon a'r coedwigoedd o gwmpas yn denu amrywiaeth eang o fywyd gwyllt a'r diddordebau tawelach o bysgota a gwylio adar- er mae'n debyg fod dirywiad yn niferoedd y pysgod.

Mae erw o goedwig cymysg eisoes wedi ei blaen, mae dulliau ffermio yn adlewyrchu anghenion cynlluniau amaeth-amgylchedd ac mae ffrwythau a llysiau organig yn cael eu tyfu.

Mae gan drigolion diddordeb mewn byw yn gynaladwy ac yn iach gan gynnwys defnydd gofalus o ddefnyddiau ac ail-gylchu gwastraff, mentrau ynni cynaladwy ar raddfa bychan, bwyra

cynnyrch ffres a cerdded neu seiclo yn hytrach na defnyddio car. Ceir nifer o lwybrau cerdded a llwybrau ceffylau yn yr ardal gan gynnwys llwybr trwy'r coedwigoedd dros hen bont i Sealyham gyda chysylltiadau i'r mot a beili.

Ennillodd Ysgol Gynradd Cas-Blaidd, sydd wedi ei leoli gyferbyn â chlwt y pentref ac a agorwyd yn 1834, Wobr Efydd Ysgolion Cynaladwy ac wedi cyflawni cynllun "Hyrwyddo Iechyd Ysgolion" Sir Benfro am bedair mlynedd. Mae gardd gan yr ysgol, wedi ei ddylunio, plannu a'i chynnal gan y plant, sydd yn agored i'r gymuned ar adegau.

Cynigion

1. Sefydlu Grŵp Gwella'r Amgylchedd lleol i fwydo mewn i'r Fforwm Cymunedol.
2. Cynnal a gwella ymddangosiad a chymeriad Cas-Blaidd; gan gynnwys gostyngiad yn y nifer o arwyddion, er enghraifft, tu allan i'r dafarn.
3. Datblygu mentrau cadwraeth egni ac ynni cynaladwy graddfa bychan.
4. Sicrhau fod unrhyw drawsnewidiadau yn y dyfodol neu adeiladau newydd wedi eu "cynllunio'n wyrdd" ac yn ymwybodol o faterion ynni.
5. Arwyddo a chynnal cyfres o deithiau cerdded o amgylch y pentref gan gynnwys:
    a. Drwy'r Mwnt a Beili a Choedwig Sealyham i Dŷ Sealyham
    b. Y cylchdaith o amgylch Chwarel Llechi Sealyham
    c. Mynydd Trefgarn
6. Cyhoeddi llyfryn ar deithiau cerdded gan gyfeirio i mannau o ddiddordeb, gan gynnwys daeareg lleol.
7. Hyrwyddo rheolaeth coed a choedwigoedd proactif trwy'r ardal.
8. Cytuno ar adnoddau torri porfa yn y mannau agored
9. Annog y gymuned ac ymwelwyr i'r ardal i gasglu ac i waredu

sbwriel yn effeithiol. . Cynyddu'r nifer o arwyddion yn erbyn sbwriel.

Treftadaeth

Sylwadau

Mae'r ardal o amgylch Cas-Blaidd yn gyfoethog o ran archeoleg a hanes. Ceir cromlech, pentref Oes Haearn yn Sealyham, caerau Oes Haearn yn Nhrefgarn a'r darganfyddiad Rhufeinig mwyaf arwyddocaol yn Sir Benfro ymysg yr agweddau archeolegol. Lleolir adfeilio Mwnt a Beili castell Normanaidd ar y pentir uwchben y pentref yng nghymer y Cleddau Wen ac Afon Anghof. Ym mis Medi 2002, agorwyd safle'r Mwnt a Beili gyda llawer o gefnogaeth o berchennog y safle. Mae gwelliannau eisoes wedi eu gwneud i'r safle gan gynnwys mynediad trwy lwybr, ffensio'r ffin, byrddau picnic a bwrdd dehongli, ac mae'r ardal yn cael ei gynnal yn dda.

Yng nghanol y pentref ceir pen blaidd uwchben ffynnon, a adeiladwy yn 1902 er cof am GGWE Edwardes o Sealyham gan ei weddw ac a gafodd ei adfer adeg y Mileniwm gan aelodau Sefydliad y Merched. Y ffynnon yma oedd yn cyflenwi dŵr yfed i "ochor uchaf" y pentref yn wreiddiol.

Mae Ysgol Cas-Blaidd, Eglwys Sant Margaret, Capel Annibynnwyr

Penybont ac, i'r de, Melin Nantycoy yn adeiladau pwysig o fewn y gymuned. Mae olion ystâd Rhufeinig ar gyrion y penbtref er fod mynediad wedi ei gyfyngu. Mae trywydd yr hen rheilffordd Great Western, a agorwyd yn 1906, yn rhedeg drwy'r pentref. Mae Tŷ Sealyham, i'r gogledd ddwyrain o Gas-Blaidd ac a adeiladwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, bellach yn Ganolfan Gweithgaredd. I ddwyrain y pentref lleolir Eglwys Sant Dogfael.

Cynigion

1. Parhau i ymchwilio i archeoleg, hanes a llên gwerin ardal Cas-Blaidd gan gynnwys safle'r ystâd Rhufeinig.
2. Adolygu llyfryn Cas-Blaidd, ac ychwanegu ato, codi byrddau dehongli ychwanegol ar safleoedd pwysig a cadw archif o ffotograffiau (fel rhan o gynnigion y neuadd bentref).
3. Ymchwilio'r posibiliad o godi'r gromlech sydd wedi dymchwel.
4. Cysylltu'r hawliau tramwy â strategaethau treftadaeth.

Busnes, Cyflogaeth a Thwristiaeth

Sylwadau

Ceir cyfeloedd cyfyngedig a gostyngol am gyflogaeth lleol sydd wedi ei gyplu gyda chyflogau isel. Onni bai am amaethyddiaeth, mae mentrau lleol yn cynnwys Gwesty Allt yr Afon, a agorodd yn 1977, Tafarn y Wolfe, adeiladwr lleol, y Crochendy, Cynyrchiadau Frio, yr ysgol a gwestai Gwely a Brecwast sydd i gyd yn gaffaeliad mawr i'r gymuned. Mae Canolfan Sealyham, sy'n cynnig llety dros nos, yn gyflogwr lleol amlwg.

Dengys yr holiadur cymunedol bod 10 o'r rheiny a wnaeth ymateb yn berchen ar, neu'n rheoli busnes yn y gymuned. Maen nhw oll yn berchen ar eu heiddo.

Mae prinder swyddi, tra'n effeithio ar bobol o bob oedran, yn enwedig o anffodus i bobol ifanc gan ei fod yn sbardun ychwanegol iddynt adael yr ardal i gael gwaith ac o bosib i gael tŷ. Mae adnoddau a gwasanaethau yn brin ac mae'r boblogaeth yn heneiddio. Mae yna ofid os mae'r tuedd yma'n parhau byddai gwasanaethau ychwanegol yn cael eu colli.

Cynigion

1. Arall-gyfeirio'r economi amaethyddol trwy 'twristiaeth gwyrdd', er enghraifft
    a. Datblygu marchogaeth ceffylau / asynod, gan gynnwys teithiau merlota.
    b. Manteisio ar gynhyrchu llaeth lleol fel sylfaen ar gyfer cynnyrch yn ymwneud â chynnyrch llaeth.
    c. Llety ffermdy i ymwelwyr.
2. Annog ffermwyr lleol i gyfrannu'n fwy at y Cynllun Amaeth-Amgylchedd ac annog tyfu ffrwythau a llysiau organig.
3. Hyrwyddo Cas-Blaidd yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, trwy'r wefan, Wolf Whistle a thaflenni sydd ar gael yn y Canolfannau Croeso ayb.
4. Annog mwy o westai gwely a brecwast.
5. Cysylltu â'r asiantaethau perthnasol a busnesau presenol i edrych i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth yng Ngogledd y sir.

Trafnidiaeth, Ffyrdd a Thraffig

Sylwadau

Er i'r rheilffordd redeg trwy ganol Cas-Blaidd, y gorsfeydd agosaf yw Abergwaun a Clarbeston Road (y mannau lle mae trenau i Hwlffordd ac Aberdaugleddau yn gadael o linell Abergwaun). Fodd bynnag, nid yw'r 'trên llong' sy'n rhedeg dwywaith y dydd yn stopio yn Clarbeston Road ond yn hytrach yn fwy i'r dwyrain yn Hendygwyn.

Mae gwasanaeth bws y 412 o Ddydd Llun i Ddydd Sadwrn yn mynd o Hwlffordd i Aberteifi drwy Abergwaun. Onni bai am wasanaeth ysgol boreol cynnar o Gas-Blaidd i Abergwaun mae'r gwasanaeth cyntaf yn gadael Hwlffordd am 9.00 ac yna ar bob awr. Mae'r gwasanaeth dychwelyd yn dechrau'n gynt, yn gadael Cas-Blaidd am 7.40. Mae angen am gwasanaeth nos hwyrach ac hefyd gwasanaeth ar Ddydd Sul yn rhannol oherwydd fod cyfleoedd prin am adloniant i drigolion ifanc Cas-Blaidd.

Onni bai am y 412 nid oes llawer o gyfleoedd i'r sawl heb ddefnydd

o gar i ddefnyddio trafnidiaeth cyhoeddus i mannau onni bai'r rhai ar hyd lwybr bws yr A40.

Mae yna ofid y byddai gwasanaethau bws (a thrên) gwledig mewn peryg pe bai gostyngiad yng nghymorthdaliadau trafnidiaeth neu pe na bai'r cyfraddau defnydd yn cynyddu (Mae pobol dros 60 oed yn teithio yn rhad ac am ddim yn bresenol) .

Mae arosfannau bysus gyda cyrbau wedi codi a mynediad rhwydd i fysus wedi'u gosod bob ochr yr A40 ond mae'r palmantau ond yn ysbeidiol ar hyd y ffordd yma.

Mae'r A40 sy'n cysylltu lwerddon i dir mawr Ewrop drwy Cymru a Lloegr yn un o briffyrdd y Rhwydwaith Traws Ewropeaidd. Trwy gydol y dydd a'r nos mae traffig y bâd, sy'n cynnwys canran uchel o gerbydau nwyddau trwm, yn teithio drwy Cas-Blaidd yn ogystal â cherbydau ar deithiau lleol. Mae trigolion yn ymwybodol o'r llygredd a ddaw o'r ceir a loriau sy'n defnyddio'r A40. Mae yna gyfyngiad cyflymdra o 40mya drwy'r pentref ac mae yna goleuadau stryd ysbeidiol.

Mae Troeon Trefgarn wedi gweld nifer o ddamweiniau. Mae yna cyfyngder cyflymdra awgrymiedig o 30mya, arwyneb atal sglefrau ac arwyddion rhybuddiol mewn ymgais i llehau cyflymdra.

Nid oes darpariaeth ar wahan ar gyfer seiclo, er enghraifft i Dreletert neu Trefgarn. Nid oes llwybr seiclo diogel tu fewn na thrwy'r pentref.

Un o'r prosiectau a ddewiswyd ar gyfer asesiad o gynaliadwyedd yn Nhachwedd 2007, fel rhan o adolygiad o'r Cynllun Gweithredu, oedd gosod arhosfan bysiau dan do rhwng Bryn Gower a'r Mans. Er bod yr arhosfan bresennol wedi'i marcio yno, nid oes cysgod. Fe fyddai gwaredu rhan o glawdd y cae yn golygu bod modd adeiladu cysgodfan. Fe fyddai cost cymharol fach o fudd uniongyrchol i nifer fawr o bobl.

Yn ôl yr holiadur cymunedol, y car yw'r modd mwyaf poblogaidd o

deithio i'r gwaith a chyrchu cyfleusterau. Fe wnaeth 10 o'r rheiny a ymatebodd, ddatgan bod hi'n well ganddynt ddefnyddio'r bws/ cludiant cyhoeddus. Dywedwyd bod y gwasanaeth cyfyng yn yr ardal yn peri rhwystr iddynt, felly nid oes modd gadael y car adref!

Cynigion

Dylai unrhyw gynigon sy'n effeithio ffyrdd a thraffig gael eu dilyn mewn cydweithrediad â'r Cyngor Sir, yr Awdurdod Traffyrdd, ac asiantaethau eraill.

1. Annog cerdded a seiclo yn hytrach na gyrru ar deithiau byr fel modd i lehau pelydru o pibellau mwg ceir, gwella iechyd personol ac i cyfarfod â phentrefwyr eraill.

2. Edrych i adeiladu llwybr seiclo / palmant rhwng Cas-Blaidd a Threletert i'r gogledd. Mae yna war porfa eithaf llydan yr holl fordd.

3. Trafod gyda:
   a. Gweithredwyr rheilffordd (Trenau Arriva a CSP fel yr Awdurdod Trafnidiaeth a / neu Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Sir Benfro), – y posibiliad o aghor gorsaf rheilffordd lleol a / neu gwella'r gwasanaeth bresenol. Mae opsiynnau'n cynnwys ail-agor yr hen orsaf ar Heol Fathri, ail-agor yr arhosfa yng Nghas-Blaidd, i alluogi trenau o Abergwaun i aros, trwy gais, yn Clarbeston Road a cynyddu'r nifer o drenau sy'n defnyddio'r llinell i Abergwaun.
   b. Gweithredwyr Bysus – y posibiliad o wasanaeth hwyr a gwasanaeth ar Ddydd Sul.

4. Y Cyngor Sir i wella lled palmentydd lle maent yn rhy gul i gerdded yn ddiogel, yn enwedig ar hyd yr A40 a gwella chadwriaeth ffyrdd, llwybrau cerdded a palmentydd.

5. Gweithio gyda'r Cyngor Cymuned a Chyngor Sir Penfro ac adeiladu arhosfa bws cysgodol tu fas y Mans a Bryn Gomer.

6. Archwilio gyda'r Cyngor Sir y posibiliad o
   a. Cynyddu'r Gwasanaethau Trafnidiaeth Cymunedol, er enghraifft PVTA neu Ceir Cefn Gwlad.
   b. Y gymuned i weithredu bws Trafnidiaeth Cymunedol Cas-Blaidd.

7. Gosod mesurau tawelu traffig ychwanegol a gorfodaeth mwy trylwyr o gyfnygderau cyflymdra presenol trwy'r pentref ac i'r ardal 30mya awgrymiedig ger Troeon Trefgarn.
8. Ail-arwynebu Pont Trefgarn fel mesur diogelwch traffig.
9. Ystyried ail-gyfeirio'r A40 o amgylch Cas-Blaidd, yn enwedig gyda'r cynnydd disgwyliedig mewn traffig cerbydau trwm rhyngwladol ar y ffordd rhwng Abergwaun a Rosslare a'r effaith gynyddol mae llif traffig yn cael ar drigolion – sŵn, mygdarthau a peryg damweiniau. Byddai cynlluniau i wneud rhai sectorau o'r A40 yn ffordd deuol yn dod â hyn yn ei flaen.
10. Adnabod lleoliad ar gyfer maes parcio (ymwelwyr)

Tai

Sylwadau

Mae yna ofid nad yw prynwyr tai lleol a phrynwyr am y tro cyntaf yn gallu fforddio i brynu eiddo ac o'i herwydd yn symud o'r ardal. Mae hyn yn rhannol oherwydd cynnydd ym mhrisoedd tai ac yn rhannol oherwydd defnyddio tai fel cartref i ymddeol, ail gartref neu tai hâf.

Tra fod angen rhywfaint o ddatblygiadau pellach mae yna ofid y gellid colli cymeriad Cas-Blaidd os caniateir adeiladu mwy o dai. Mae'r ymatebion i'r holiadur cymunedol yn awgrymu y byddai 16 o deuluoedd yn ceisio cartref newydd yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Byddai 8 yn ystyried prynu tai fforddiadwy, 7, cartrefi preifat, 5 angen tai cyngor/ cartrefi cymdeithas tai a 2 angen addasiadau ar gyfer perthnasau oedrannus neu anabl.

Cynigion

1. Gofyn i'r Galluogwr Tai Gwledig:
   a. Asesu gofynion tai lleol.
   b. Cael caniatad cynllunio a perchnogaeth tir/adeiladau
   c. Adeiladau / hunan-adeiladu a rheoli tai sy'n ystyried yr amgylchedd.

   gan felly gynyddu argaeledd tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol.
2. Blaenoriaeth i'w roi i dai fforddiadwy i ofynnion lleol; a rheoli'r deiliadaeth fel nad yw'r eiddo yn dod yn ail gartref neu'n dŷ

hâf.

3. Gofyn i'r Awdurdod Gynllunio i ystyried llacio polisïau defnydd tir a caniatau datblygiad preswyl cyfyngedig ar gyfer pobl leol.

Gwaredu Gwastraff ac Ail-Gylchu

Sylwadau

Nid oes cyfleusterau ail-gylchu Cyngor Sir Penfro yng Nghas-Blaidd. Gellir ond ail-gylchu caniau a phapur fel rhan o daith i Dreletert sydd a chyfeusterau preifet neu i Abergwaun neu Manorowen i adnoddau'r cyngor. Mae cynllun 'Ddraig Werdd' yn cael ei weithredu yn Sealyham ac ail-gylchir papur yn yr ysgol er fod rhaid mynd ag e i Manorowen. Fodd bynnag, ame'r ysgol ar hyn o bryd yn dibynu ar rhieni sydd yn byw mewn ardaloedd 'sachau oren' i ail-gylchu'r niferoedd fawr o flychau llaeth plastig a gynhyrchir.

Roedd darparu safle lleol ar gyfer ailglchu gwydr, papur, caniau a phlastig yn un o bedwar prosiect a archwiliwyd yn fanwl yng Ngweithdy Llunio'n Dyfodol. Gofynnir i'r Cyngor Sir a pherchnogion tir lleol weithredu i ddod o hyd i safle addas.

Mae'r system carthffosiaeth wedi ei gorlwytho oherwydd mae'n cael ei bwmpio o bentref cyfagos a weithiau mae oglau yn codi o amgylch y gweithfeydd.

Cynigion

1. Adnabod safle ar gyfer ail-gylchu- ar gyfer o leiaf poteli, tiniau a phapur ac o bosib plastig; mae un safle posib ger yr orsaf bwmpio carthffosiaeth, ac efallai y bydd un arall ger neuadd bentref Trefgarn.
2. Ymchwilio i gompostio toriadau porfa.
3. Annog y Cyngor Sir i ddechrau casglu sbwriel sydd wedi'i wahanu yn wastraff y gellid ei ailgylchu a gwastraff na ellid ei ail-gylchu.
4. Annog y Cyngor Sir i ystyried darprau bocsys ail-gylchu i lehau'r nifer o sachau a ddefnyddir.
5. Gofyn i gael toiledau cyhoeddus yng nghanol y pentref sydd

ar agor trwy gydol y flwyddyn.

6. Dŵr Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd i diweddaru y system carffosiaeth fel yr angen i waredu unrhyw oglau a sicrhau ei fod yn gweithio heb drafferthion.
7. Gofyn i Dŵr Cymru ail-redeg y biben carffosiaeth sy'n croesi'r Cleddau gyferbyn a'r Ardal Harddwch Afon a Threftadaeth sy'n atyniad anffodus i blant.

Y Camau Nesaf

Gweithredu / Grwpiau Gweithredu

I sicrhau fod y Cynllun Gweithredu yn cael ei ddatblygu'n effeithiol awgrymir creu Grwpiau Gweithredu diddordebau arbennig o fewn y Fforwm Gymunedol. Bydd y Grwpiau, mewn cydweithrediad gyda'r darparwyr perthnasol, er enghraifft yr Awdurdod Traffyrdd, yn canolbwyntio ar baratoi cynlluniau gweithredu manylach yn rhoi blaenoriaeth ac yn ffocysu ar y cynnigion hynny sydd yn bosib i'w weithredu yn gynnar.

Gellid canolbwyntio'r Grwpiau ar

- Gwasanaethau Cymunedol, adnoddau a chyfarthrebiadau.
- Yr Amgylchedd (gan gynnwys hawliau tramwy), gwastraff ac ail-gylchu.
- Tai, cyflogaeth (gan gynnwys twristiaeth), trafnidiaeth a thraffig.
- Treftadaeth

Mae'n bwysig fod y Grwpiau yn:

- Gweithio o fewn y Cynllun Gweithredu cytunedig a'r Fforwm Gymunedol.
- Gweithio gyda grwpiau a sefydliadau presenol.
- Cyfarfod yn rheolaidd.
- Cadw'r gymuned ehangach yn ymwybodol o ddatblygiadau